**Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai - Cynulliad Cymru**

**6pm Dydd Mawrth 22 Mai 2018**

Cofnodion

Yn bresennol: Simon Thomas AC (Cadeirydd), Stuart Donaldson (Ysgrifennydd), David Rowlands AC, Gareth Bennett AC, Chris Charters (CAMRA), James Calder (SIBA), Ioan Bellin (Swyddfa Simon Thomas AC)

Ymddiheuriadau: Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

1. Croeso ac ymddiheuriadau
    - Croesawodd y cadeirydd bawb a nododd y gallai'r bleidlais hwyr amharu ar bresenoldeb.
2. Isafbris am alcohol
    - Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Lles yn gallu bod yn bresennol.
    - Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynglŷn ag isafbris am alcohol, gan gynnwys y sefyllfa bresennol yn yr Alban a gwahanol safbwyntiau o fewn y diwydiant bragu.
3. Polisi Cynllunio
    - Cafwyd trafodaeth ynghylch cyflwyno Asedau Gwerth Cymunedol (ACV) yn Lloegr a'r effaith a gafodd ar yr ymdrech i achub tafarndai, a nodwyd nad oes unrhyw reoliadau asedau cymunedol yng Nghymru.
    - Cafwyd trafodaeth ynghylch Dosbarthiadau Defnydd ac nid yw'r ymgynghoriad a addawyd wedi'i gyhoeddi eto. Cytunwyd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â'r ymgynghoriad.
    - Nodwyd y byddai'n anodd dylanwadu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
    - Mynegwyd pryderon ynghylch sut y mae rhai swyddogion cynllunio lleol yn ymdrin â materion cynllunio.
    - Croesawyd cyflwyno'r "Egwyddor Cyfrwng Newid"
4. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch heriau a chyfleoedd yn y diwydiant

- Cafwyd trafodaeth ynghylch tafarndai cymunedol gan gynnwys cynigion i gyfarfod ac ymweld â thafarndai lle mae'r gymuned leol wedi prynu eu tafarn leol neu dafarn leol sy'n cau.
- Cafwyd trafodaeth fer ac esboniad o'r cynllun Rhyddhad i Fragwyr Bach.
- Cynigiwyd bod y Grŵp Trawsbleidiol yn hwyluso rhwydweithio rhwng tafarndai cymunedol i rannu arfer gorau. Gellid defnyddio hyn wedyn i hyrwyddo gwerth tafarndai cymunedol yn ehangach o fewn y Cynulliad.
- Cynigiwyd bod y Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu at Lesley Griffiths i hyrwyddo gwneuthurwyr cwrw a seidr Cymreig.
- Soniwyd bod cyfraddau busnes ar dafarndai yn rhywbeth sy'n effeithio arnynt a bu trafodaeth ynglŷn â rhyddhad ardrethi.
- Trafodwyd cyfraniad tafarndai i'r diwydiant twristiaeth ac awgrymwyd y gellid cydweithio â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth.
- Trafodwyd pris teledu Sky, y mae tafarndai yn ei dalu.

5. Digwyddiadau a chyfarfodydd i ddod
    - Penderfynwyd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol geisio cyfarfod mewn tafarndai cymunedol.
    - Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol i edrych ar drefnu teithiau ac ymweliadau o amgylch bragdai yng Nghaerdydd a ledled Cymru.
6. Unrhyw fater arall
    - Codwyd materion sy'n effeithio ar seidr.
    - Cynigiwyd bod y Grŵp Trawsbleidiol yn newid ei enw. Bydd yn cynnwys seidr yn y CCB nesaf.